

Tasg 1

Adeilad Senedd Cymru

1. Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
i. Mae'r Senedd yn 8 mlwydd oed eleni.		
ii. Mae miliwn o bobl wedi ymweld â'r adeilad.		
iii. Does dim gwydr yn yr adeilad o gwbl.		
iv. Mae'r rhan fwyaf o'r defnyddiau yn yr adeilad yn dod o Gymru.		
v. Mae'r adeilad yn defnyddio rhwng 30% a 50% yn llai o ynni nag adeiladau arferol.		
vi. Mae desg o flaen pob Aelod Cynulliad.		
vii. Dydy hi ddim yn bosibl gweld yr Aelodau Cynulliad o gwbl yn y Senedd.		
viii. Mae'r adeilad i fod i bara 500 mlynedd.		

2. O'r darn, dewiswch a chopiwch y geiriau sy'n golygu:

o bob rhan o Gymru

rhywun sy'n cynllunio adeilad

pethau manwl, arbennig

3. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau neu'r rhifau hyn yn y darn am y Senedd:

Yr Arglwydd Richard Roberts
gwydr

36%
system ddiogelwch

fflysió'r toiledau
£70m

4. Faint rydych chi'n ei gofio? Beth sy'n digwydd yn:
- Neuadd y Senedd?
 - Siambr y Senedd?
 - Yr Oriel Gyhoeddus?

5. Tynnwch **4** llinell i ddangos y cysylltiad rhwng ffeithiau yn y darn

Pibellau wedi'u drilio 100m o dan y ddaear

Yma mae'r ACau yn trafod pethau penodol

Y Prif Weinidog

Twymo'r adeilad

Ystafelloedd pwyllgor

I bobl gael gweld beth sy'n digwydd yn yr adeilad

Llawer o wydr

Eistedd yn y rhes flaen

6. Oes angen mynd drwy system ddiogelwch i fynd i mewn i'ch ysgol chi? Pam mae angen mynd drwy system ddiogelwch cyn mynd i mewn i adeilad y Senedd?

7. Pam mae llawer o ddefnyddiau o Gymru wedi'u defnyddio yn adeilad y Senedd?
8. Pam mae hi'n bwysig fod pobl yn gallu gweld beth sy'n digwydd yn y Senedd?
9. Sut mae Siambr Senedd Cymru yn wahanol i Siambr Tŷ'r Cyffredin?



Ydy'r ffordd y mae pobl yn eistedd yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y maen nhw'n siarad â'i gilydd?

10. Ydych chi wedi bod i'r Senedd ym Mae Caerdydd? Faint rydych chi'n ei gofio am yr ymweliad?

Hyd yn oed os ydych chi wedi bod o'r blaen, trafodwch ac ymchwiliwch mewn paruau/grwpiau bach i **drefnu ymweliad â'r Senedd**.

Ewch i'r wefan hon i weld pryd mae teithiau tywys ar gael ac i gael taith rithwir:

<http://www.dygynulliad.org/cymryd-rhan/trefnwch-ymweliad-a-bae-caerdydd/>

Beth fyddai angen ei drefnu i gyd? Meddyliwch am bethau fel hyn:

- Faint o amser fyddai ei angen ar gyfer y teithio ac ymweld â Chaerdydd?
- Sut byddech chi'n teithio i Gaerdydd? Â phwy y byddech chi'n cysylltu i drefnu hyn?
- Fyddai angen llety arnoch chi? Ble byddai'r lle gorau i aros?
- Beth arall yr hoffech ei wneud yng Nghaerdydd ar yr un pryd?
- Unrhyw beth arall? Oes rhywun yn gallu awgrymu lleoedd da i fwyta, er enghraifft?